Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
FIN(6)-02-24 PTN1

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/RE/2730/23

Peredur Owen Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Y Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

11 Ionawr 2024

Annwyl Peredur

Yn unol â'r arfer sefydledig, rwyf yn bwriadu cyhoeddi Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2023-24. Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu ymlaen llaw o'm bwriad, gan roi amser ichi gynllunio ar gyfer y gwaith craffu priodol.

Prif ddiben yr Ail Gyllideb Atodol fydd adlewyrchu'n ffurfiol newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin. Yn ogystal â hynny, bydd yn ystyried y newidiadau yn ystod y flwyddyn a gyhoeddais yn fy natganiad ar 17 Hydref. Bydd yn nodi nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru a throsglwyddiadau gydag adrannau Llywodraeth y DU. Bydd hefyd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Bydd hefyd yn cynnwys diwygiadau i ragolygon trethi datganoledig, yr Addasiad i'r Grant Bloc, cronfeydd a dynnir o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a benthyca arfaethedig o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Rwyf yn bwriadu cyflwyno'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2023-24 ar 20 Chwefror i ganiatáu ar gyfer dadl ar 12 Mawrth, yn dilyn cyfnod o dair wythnos o graffu o dan y Rheolau Sefydlog.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.